



Annwyl Gwsmer,

Mae'n dda gennym roi gwybod i chi y byddwn, mewn cydweithrediad â Payzone, yn agor gwasanaeth Swyddfa'r Post newydd yn eich ardal yn Your Store Local, 5-7 Bryn-y-gwynt, Treffynnon, CH8 7BX, gan ddechrau ddydd Mercher 5 Mehefin 2024 am 13:00.

Bydd y gwasanaeth yn un o'n canghennau Gollwng a Chasglu, sef un o'n mathau newydd o fformatau ysgafnach i'n canghennau, a ddatblygwyd i gymryd mantais o'r cyfleoedd yn y farchnad barseli rhagdaledig ac i'n helpu i fynd i'r afael â bylchau o ran darparu gwasanaeth.

Bydd y cyfleuster Gollwng a Chasglu newydd yn Your Store Local yn cynnig gwasanaethau Swyddfa'r Post o ddyfais sy'n cael ei ddal yn y llaw, a'i gwneud yn hwylus i gwsmeriaid dalu biliau a chasglu a dychwelyd parseli rhagdaledig. Er mwyn gwella hygyrchedd y gwasanaethau hyn y mae cwsmeriaid yn chwilio'n gynyddol amdanynt, ni fydd gwasanaethau mwy cymhleth megis bancio personol a busnes ar gael yn y gangen hon. Mae manylion am yr oriau agor a'r cynhyrchion a gwasanaethau sydd ar gael i'w gweld drosodd. Os bydd rhaid newid y dyddiad agor am resymau annisgwyl, bydd posterï'n cael eu gosod yn y siop er mwyn rhoi gwybod i gwsmeriaid.

Mae dewis ehangach o wasanaethau Swyddfa'r Post ar gael o ganghennau cyfagos, sef Swyddfa Bost Treffynnon, 50 Y Stryd Fawr, Treffynnon, CH8 7AA a Swyddfa Bost Glanrafon, Heol Bagillt, Bagillt, CH6 6JB. Mae'r wybodaeth ddiweddaraf am ganghennau ar gael ar ein gwefan yn www.postoffice.co.uk/branch-finder

Mae croeso i chi rannu'r wybodaeth hon trwy eich sianeli cyfryngau cymdeithasol a'i rhannu ag eraill a allai fod â diddordeb i glywed am y gangen newydd a'r gwasanaethau sy'n cael eu cynnig ganddi.

Mae'r cyfathrebiad hwn yn unol â'n Hegwyddorion Ymgysylltu â'r Gymuned. Mae detholiad sy'n ymwneud â'r Hysbysiad hwn ar ddiwedd y llythyr hwn.

Gobeithiwn y byddwch chi a'r gymuned leol yn cefnogi rhwydwaith Swyddfa'r Post yn eich ardal.

Yr eiddoch yn gywir,

Natalie Liff

Natalie Liff

Rheolydd Cynigion

Cynigion Rhwydwaith

Sut i gysylltu â ni:

comments@postoffice.co.uk

Postofficeviews.co.uk

FREEPOST Your Comments

I gael yr wybodaeth hon mewn fformat gwahanol, er enghraifft mewn print bras, sain neu braille, ffoniwch 03452 66 01 15 neu 03457 22 33 55 (ffôn testun).

Oriau agor a'r gwasanaethau Swyddfa'r Post sydd ar gael	
Llun – Sad	07:00 – 21:00
Post	
Casglu a dychwelyd parseli – rhagdaledig yn unig	
Arall	
Talu biliau	
Gwasanaeth adlenwi ffôn symudol	
I gael gwybod a yw cynnyrch ar gael, ffoniwch 03457 22 33 44.	

Egwyddorion Ymgysylltu â'r Gymuned ynghylch newidiadau i rwydwaith Swyddfa'r Post (detholiad)

Mae fersiwn llawn o'r dogfen hon ar gael ar ein Hyb Ymgynghori - postofficeviews.co.uk

Rydym wedi ymrwmo i ymgysylltu â'n cwsmeriaid a'u cynrychiolwyr ac i'w cefnogi wrth i ni wneud newidiadau i rwydwaith Swyddfa'r Post. Dilynir yr Egwyddorion a ganlyn wrth gyfathrebu am newidiadau i'ch cangen Swyddfa'r Post leol.

Byddwn yn **Hysbysu** – pan fyddwn yn rhoi gwybod i gwsmeriaid am newidiadau ynghylch:

- Oriau agor
- Cau nas cynlluniwyd¹/ ymyriad a gynlluniwyd i wasanaeth
- Ailagor cangen a gaewyd yn yr un safle
- Agor cangen newydd nad yw'n ymwneud â chau blaenorol
- Lleoliad yn cael ei ddefnyddio gan Swyddfa Bost Symudol mewn cymuned
- Masnachfreinio cangen a Reolir yn Uniongyrchol yn ei safle cyfredol lle nad oes unrhyw newidiadau i'r mynediad i fan gwasanaeth Swyddfa'r Post.

Byddwn yn gosod poster yn y gangen (neu gerllaw os yw hynny'n briodol) er mwyn rhoi gwybod i gwsmeriaid am y newidiadau uchod, gan geisio rhoi pedair wythnos o rybudd. Efallai na fydd modd rhoi pedair wythnos o rybudd ar gyfer newid nas cynlluniwyd ac, os felly, rhoddwn rybudd cyn gynted ag y medrwn. Ar gyfer pob cau byddwn yn cynnwys manylion am y Swyddfeydd Post agosaf a manylion am ein llinell gymorth / ffôn testun i gwsmeriaid.

Rhoddwn wybod i gynrychiolwyr etholedig lleol sydd yn cynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i'r Aelod Seneddol, Senedd yr Alban, Senedd Cymru, neu Gynulliad Gogledd Iwerddon, Prif Weithredwr yr Awdurdod Lleol, Cynghorwyr Ward, Y Cyngor Cymuned neu'r Cyngor Plwyf, elusennau dethol, Cyngor ar Bopeth Lleol, Age UK, Disability Action Gogledd Iwerddon a Rhwydwaith Cymunedau Gwledig Gogledd Iwerddon. Hefyd, anogir yr uchod i rannu pob gwybodaeth â grwpiau a sefydliadau lleol a allai, yn eu barn, fod a diddordeb gweithredol mewn newidiadau i'w Swyddfa Bost leol.

Cafodd yr Egwyddorion hyn eu cytuno â Chyngor ar Bopeth, Consumer Scotland a Chyngor y Defnyddwyr yng Ngogledd Iwerddon, cyrff gwarchod statudol annibynnol y defnyddwyr.

Beth i'w wneud os ydych yn teimlo na ddilynwyd yr Egwyddorion hyn:

Cysylltwch â ni, os gwelwch yn dda, fel y gallwn ymchwilio i'ch cwyn. Yn ein hateb byddwn yn esbonio a ydym yn credu ein bod wedi dilyn ein Hegwyddorion Ymgysylltu â'r Gymuned a chewch y manylion cyswllt ar gyfer y corff gwarchod defnyddwyr priodol (Cyngor ar Bopeth, Consumer Scotland neu Gyngor y Defnyddwyr yng Ngogledd Iwerddon) os nad ydych yn fodlon â'n hateb. Bydd y corff gwarchod yn gwneud asesiad annibynnol i weld a ydym wedi dilyn y broses Egwyddorion Ymgysylltu â'r Gymuned (yn hytrach na'r penderfyniad ei hun) ac yn argymhell unrhyw gamau i'w cymryd ynghylch y cwyn.

Postofficeviews.co.uk

Comments@postoffice.co.uk

FREEPOST Your Comments

Ffoniwch: 03452 66 01 15

Ffôn Testun: 03457 22 33 55

¹ Os nad oedd y cau wedi ei gynllunio, adolygir y gwasanaeth a ddarperir yn yr ardal, ar sail y defnydd cyfredol, modelu ac argaeledd unrhyw fodel gwasanaeth addas arall. Gwneir penderfyniad masnachol os ceisir cael gwasanaeth yn lle'r un a gafodd ei gau ac ni fydd yn rhwym wrth ymgynghoriad cyhoeddus.